



Datganiad o ymrwymiad rhwng: Awdurdod Lleol a Gwasanaethau Rheoleiddio HSE

Mae'r cyd-ddatganiad ymrwymiad hwn, a gytunwyd gan gyrrff cynrychiadol awdurdodau lleol a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ym mis Mawrth 2019, yn nodi ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer partneriaeth gyd-reoleiddiol barhaus rhwng yr ALI/HSE. Yn sicrhau bod ALLau ac HSE yn gweithio gyda'i gilydd fel rheoleiddwyr effeithiol, modern a phroffesiynol - gan gyflawni manteision cadarnhaol iechyd a diogelwch yn y gweithle sy'n effeithlon ac sy'n arwain y byd, i gyflawni:

- Trefniadau cynaliadwy ar gyfer gorfodi iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Trefniadau gweithio ar y cyd sefydledig sy'n arwain at ymgysylltu, ymgynghori a chyfathrebu effeithiol.
- Cysondeb rheoleiddio o ansawdd uchel ar draws busnesau a orfodir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Lleol.

Anelir yr SoC hwn at Gynghorwyr, Prif Weithredwyr ALLau a'u Penaethiaid Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae'n amlinellu sut y bydd uwch reolwyr ALLau ac HSE yn gweithio gyda'i gilydd, er mwyn cyflawni darpariaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr (PF).yn y dyfodol

Y Sefyllfa Gyfredol

Mae ALLau yn rhan allweddol o'r system iechyd a diogelwch ym Mhrydain Fawr. Mae ganddynt ddyletswydd statudol o dan Adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i 'wneud darpariaeth ddigonol' ar gyfer gorfodi iechyd a diogelwch yn eu hardal, fel y nodir yn y Cod Gorfodi Cenedlaethol i ALLau'(y Cod) (www.hse.gov.uk/lau/la-enforcement-code.htm).

Mae ALLau yn gorfodi iechyd a diogelwch yn y gweithle mewn dwy ran o dair o'r holl safleoedd busnes, oddeutu hanner cyfanswm y gweithlu ym Mhrydain Fawr. Yn bennaf mae ALLau yn cynnwys y sectorau manwerthu, gwasanaethau defnyddwyr, adloniant a warysau/cadwyn gyflenwi.

Ar hyn o bryd mae methiannau o ran rheoli iechyd a diogelwch mewn sectorau busnes a orfodir gan ALLau yn arwain at oddeutu 10 o farwolaethau, 5000 o anafiadau mawr a thros 100,000 o achosion newydd o salwch y flwyddyn. Mae llawer o'r rhai hynny a niweidiwyd yn aelodau'r cyhoedd/plant, neu weithwyr agored i niwed nad ydynt yn cael eu diogelu'n rhesymol yn y gweithle.

Mae HSE yn darparu cyfarwyddyd cenedlaethol drwy'r Cod a'i ddogfennaeth ategol e.e. mae cyngor targedu sy'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol (www.hse.gov.uk/lau/lacs/67-2.htm) yn cefnogi ALLau i ddatblygu cynlluniau cyflawni cynaliadwy sy'n ymateb yn lleol, gan ddefnyddio'r arferion cudd-wybodaeth a rheoleiddio mwyaf cyfredol.

Mae rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol yn cyflwyno manteision uniongyrchol i'r gymuned leol, drwy:

- Lleihau marwolaethau, anafiadau ac afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith.

- Lleihau'r angen am iechyd cyhoeddus lleol a chymorth i'r rhai hynny sy'n gwella ar ôl anaf ac afiechyd.

- Lleihau cyfradd methiannau busnes oherwydd toriadau busnes a achosir gan ddogfeyddiau a niwed i staff, neu golli enw da.

Datblygwyd yr SoC hwn fel rhan o waith parhaus y grŵp strategol sy'n goruchwyllo partneriaeth gyd-reoleiddio HSE/ALLau (HELA) a'r Fforwm Ymarferwyr ategol. Mae hefyd wedi'i gymeradwyo gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (www.local.gov.uk/), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (www.wlga.gov.uk/) a Chymdeithas Prif Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn yr Alban (www.socoehs.com/) ac mae'n cydnabod:

- Rhaid i ALLau dargedu a blaenoriaethu adnoddau rheoleiddio i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i orfodi iechyd a diogelwch;

- Er mwyn parhau i gyflenwi cyd-reoleiddio effeithiol, bydd angen datblygu parhaus yn ymagweddau'r ALLau a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at gyflenwi rheoleiddiol, a

- Mae partneriaeth gyd-reoleiddiol yr HSE a'r ALLau yn chwarae rôl hanfodol wrth gyflawni'r strategaeth 'Helpu PF i Weithio'n Dda'. (campaigns.hse.gov.uk/hgbww/)

Nid yw'r SoC hwn yn ymwneud â chyfrifoldebau ALI ei hun fel deiliad dyletswydd iechyd a diogelwch. Mae gwybodaeth i gefnogi ALLau fel cyflogwyr, darparwyr gwasanaethau a chaffaelwyr/comisiynwyr nwyddau a gwasanaethau ar gael ar wefan HSE (www.hse.gov.uk/services/localgovernment/index.htm).

Cyd-ymrwymiadau rhwng ALLau/HSE i Orfodi Iechyd a Diogelwch Cynaliadwy a Dargedir

Yr hyn y bydd ALLau a HSE yn ei wneud gyda'i gilydd fel partneriaid cyd-reoleiddio i #HelpGBworkwell

Bydd ALLau ac HSE yn darparu fframwaith rheoleiddio effeithiol trwy:

- Rhannu gwybodaeth, i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- Darparu ymyriadau rheng flaen wedi'u targedu ar sail risg.
- Cynnal cyswllt a chyfathrebu dwyffordd effeithiol trwy gynrychiolaeth ar y cyd mewn grwpiau cyswllt sirol yn ogystal â fforymau HELA ac Ymarferwyr ALLau/HSE ar y cyd.

Bydd ALLau ac HSE yn sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol trwy:

- Cyflenwi ymagwedd gyson at orfodi iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â gwaith ledled Prydain Fawr yn unol ag egwyddorion Cod y Rheoleiddwyr (www.gov.uk/government/publications/regulators-code).

Bydd ALLau ac HSE yn arwain ac yn ymgysylltu ag eraill i wella iechyd a diogelwch yn y gweithle erbyn 2010 trwy:

- Hyrwyddo manteision iechyd a diogelwch cymesur yn eu hymgysylltu rheng flaen.
- Cydweithio fel partneriaid cyd-reoleiddio i ddylanwadu ar fusnesau fel rhan o strategaeth genedlaethol.
- Defnyddio'r wybodaeth ymddygiadol ddiweddaraf i ddatblygu dulliau newydd o newid ymddygiad busnes.

Yr hyn y bydd ALLau yn ei wneud fel cyd-reoleiddwyr annibynnol i #HelpGBworkwell

Bydd ALLau yn darparu fframwaith rheoleiddio effeithiol trwy:

- Darparu'r cymhwysedd, y gallu, yr adnoddau a'r cymorth i gyflawni eu cynlluniau cyflenwi.
- Gweithio ag ALLau eraill i adolygu gweithgareddau cymheiriaid a hyrwyddo gwell canlyniadau iechyd a diogelwch.

Bydd ALLau yn sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol trwy:

- Datblygu a gweithredu cynlluniau cyflenwi lleol sy'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
- Defnyddio gwybodaeth genedlaethol a lleol i dargedu sectorau sy'n perfformio'n wael yn effeithiol.
- Adrodd am eu gweithgarwch gorfodi iechyd a diogelwch yn flynyddol i HSE.

Bydd ALLau yn arwain ac yn ymgysylltu ag eraill i wella iechyd a diogelwch yn y gweithle erbyn 2010 trwy:

- Arwain ac ymgysylltu â'u cymuned fusnes leol i hyrwyddo blaenoriaethau iechyd a diogelwch a mabwysiadu'r ymagwedd "Busnes Gwell i Bawb" lle mae hynny'n berthnasol ac yn gynaliadwy.
- Rhannu gwybodaeth leol berthnasol gyda'r HSE i lywio'r persbectif cenedlaethol.
- Hyrwyddo eu rôl fel rheoleiddwyr iechyd a diogelwch.

Yr hyn y bydd HSE yn ei wneud fel arweinydd polisi cenedlaethol a chyd-reoleidiwr i #HelpGBworkwell

Bydd HSE yn darparu fframwaith rheoleiddio effeithiol trwy:

- Adolygu effeithiolrwydd system iechyd a diogelwch galwedigaethol Prydain.
- Darparu mynediad i reoleiddwyr ALLau at ddeunyddiau sy'n benodol i bwnc a chymorth technegol/fforensig.
- Monitro ac adrodd ar weithgarwch rheoleiddio ALLau i Fwrdd yr HSE a rhanddeiliaid eraill.

Bydd HSE yn sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol trwy:

- Gosod blaenoriaethau rheoleiddio cenedlaethol a'r cyfeiriad strategol trosfwaol.
- Rhannu arbenigedd, ymarfer a deunyddiau ategol er mwyn hyrwyddo rheoleiddio cyson/cymesur. Cefnogi ALLau i ddatblygu cynlluniau ymyrraeth effeithiol trwy ddarparu cyfarwyddyd targedu wedi'i seilio ar y wybodaeth a'r gudd-wybodaeth ddiweddaraf drwy dargedu cyfarwyddyd sy'n cyd-fynd â'r Cod.

Bydd HSE yn arwain ac yn ymgysylltu ag eraill i wella iechyd a diogelwch yn y gweithle trwy:

- Cydlynu ymgysylltu cenedlaethol a hyrwyddo iechyd a diogelwch cymesur a defnyddio adborth gan ALLau i lywio datblygu blaenoriaethau cenedlaethol yn y sectorau a orfodir gan yr ALLau.
- Darparu cymorth i gydlynu rheoleiddio lleol a chenedlaethol i ALLau a gweithgorau'r sector diwydiant.
- Hyrwyddo rôl yr ALI fel rheoleidiwr iechyd a diogelwch.